

ii Crynodeb Gweithredol

1. Cyhoeddassom ein hadroddiad dros dro ym mis Mawrth. Hwn yw ein hadroddiad terfynol, sy'n adlewyrchu ein casgliadau ar ôl cael ymhell dros 600 o ymatebion i'n hymgyngghoriad a mewnbwn o gyfarfodydd mewn llawer rhan o'r wlad. Rydym hefyd wedi elwa o adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder am weithrediad y llysoedd teulu, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf.
2. Mae'n fwrriad i'r adroddiad terfynol hwn fod yn ddogfen annibynnol ond nid yw'n dadansoddi'r materion sy'n wynebu'r system cyfiawnder teuluol i'r un manylder â'r adroddiad dros dro. Mae'n cyflwyno ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio, gan nodi lle y mae'r rhain wedi newid a lle nad ydynt wedi newid. Mae hefyd yn cynnwys adrannau mwy helaeth am gynnwys plant ac am ddatblygu'r gweithlu.

Pam y mae angen newid

3. Mae'r system cyfiawnder teuluol yn delio â methiant teuluoedd, rianta a pherthnasoedd, sy'n aml yn gysylltiedig â dicter, trais, cam-drin, cyffuriau ac alcohol. Mae'r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a llysoedd yn arwain at ganlyniadau tymor hir sylfaenol i blant a rhieni ac i gymdeithas yn gyffredinol.
4. Roedd cytundeb cyffredinol bod y fframwaith cyfreithiol yn gadarn. Dylem ymfalchïo yn hyn ac yn benodol yn yr egwyddor graidd mai lles y plentyn a ddylai fod yn brif ystyriaeth yn yr holl benderfyniadau sy'n effeithio arno.
5. Ond mae'r system cyfiawnder teuluol hefyd yn wynebu pwysau ac anawsterau aruthrol. Mae rhai ohonynt yn ymwneud â'r gyfraith gyhoeddus neu'r gyfraith breifat yn unig ond mae eraill yn fwy systemig. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn rhannu ein pryder dwys ynghylch y ffordd y mae'r system yn gweithredu ar hyn o bryd, ac roedd cytundeb eang ynghylch ein diagnosis.
 - Mae achosion yn cymryd gormod o amser o lawer. Gan fod achosion gofal a goruchwyliaeth bellach yn cymryd 56 o wythnosau ar gyfartaledd (61 o wythnosau mewn canolfannau gofal) mae cyfleoedd bywyd plant sydd eisoes wedi cael niwed yn cael eu tanseilio ymhellach gan yr union system sydd i fod i'w hamddiffyn. Ac yn y gyfraith breifat, mae'r cyfnod cyfartalog o 32 o wythnosau'n caniatáu i wrthdaro fynd yn fwy caled ac i drefniadau dros dro ar gyfer plant fynd yn ddewis diodyn.
 - Mae'r gost i'r trethdalwr ac yn aml i'r unigolyn yn uchel. Roedd llawer o ymatebwyr yn gweld angen am fwy o wariant. Ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod yr adnoddau presennol yn cael eu gwario yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.
 - Bydd plant ac oedolion wedi drysu'n aml ynghylch yr hyn sy'n digwydd iddynt. Bydd yr angen i ddelio â hyn yn cynyddu law yn llaw â'r cynnydd tebygol yn nifer y bobl sy'n eu cynrychioli eu hunain mewn achosion cyfraith breifat.

- Mae strwythurau sefydliadol yn gymhleth ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd, heb unrhyw ymdeimlad clir o arweinyddiaeth neu atebolrwydd. Nid oes neb yn edrych ar berfformiad y system gyfan.
- Yn rhy aml nid yw unigolion a chyrrff yng ngwahanol rannau'r system cyfiawnder teuluol yn ymddiried yn ei gilydd.
- Nid oes set o amcanion cyffredin i rwymo asiantaethau a gweithwyr proffesiynol wrth nod cyffredin ac i hybu cydweithio a chydgyllunio rhyngddynt.
- Gall morâl fod yn isel ac nid yw statws y rheini sy'n gweithio mewn rhai rhannau o'r system yn cyfateb i lefelau'r sgiliau a'r ymrwymiad.
- Mae gwybodaeth a TG yn hollol annigonol i gynnal rheolaeth a phrosesau effeithiol.

Y system cyfiawnder teuluol

6. Mae'r materion hyn yn amlygu set o drefniadau sydd mewn argyfwng sy'n datblygu'n araf. Nid yw cyfiawnder teuluol yn gweithredu fel system gydlynol, reoledig. Mewn gwirionedd, ar sawl cyfrif, nid yw'n system o gwbl. Bwriad ein cynigion oedd delio â hyn a chanolbwyntio ar y canlynol:
 - sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed, a'u bod yn deall y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
 - creu Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol penodedig, rheoledig;
 - yr angen am well arweinyddiaeth farnwrol ac am newid mewn diwylliant barnwrol;
 - gwelliannau o ran rheoli achosion;
 - sicrhau bod y dull o drefnu'r llysoedd yn symlach ac yn fwy effeithiol;
 - sicrhau bod gweithlu cymwys a galluog, drwy ddatblygiad gweithlu effeithiol.
7. Mae ein cynigion wedi'u bwriadu i weithio ochr yn ochr â'r diwygiadau mewn arferion amddiffyn plant sydd wedi'u hargymell gan yr Athro Eileen Munro a thrwy waith y Bwrdd Diwygio Gwaith Cymdeithasol.

Llais y plentyn

8. Mae buddiannau plant yn ganolog yng ngweithrediad y system cyfiawnder teuluol. Dylid cymryd dymuniadau plant i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau a dylai plant wybod beth sy'n digwydd a pham. Roedd pobl yn ein hannog i ystyried yr angen i fod yn ofalus iawn wrth ymgynghori â phlant, ac i hyn gael ei drafod mewn modd sensitif, ac i ystyried oed a dealltwriaeth y plentyn.
9. **Dylai plant a phobl ifanc gael gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran i egluro beth sy'n digwydd pan fyddant yn gysylltiedig ag achosion. Dylent gael cymorth mor gynnar ag sy'n bosibl i roi gwybod am eu barn a dylai plant hŷn gael dewis o opsiynau, i egluro ym mha ffyrdd y gallent wneud hyn – os oeddent yn dymuno.**

10. Mae'r gwaith yn galw am gymorth gan weithwyr proffesiynol hyfedr. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol** (gweler paragraffau 13 i 25) **roi arweiniad wrth ddatblygu a lledaenu safonau a chanllawiau cenedlaethol ar weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder teuluol.**
11. Roeddem hefyd yn edmygu'r gwaith a wneir gan Fwrdd Pobl Ifanc Cafcass. Dylid parhau â'r gwaith hwn drwy **Fwrdd Pobl Ifanc i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol.**
12. **Dylid cadw golwg manwl ar ddatblygiadau diweddar yng Nghymru i gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.**

Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol

13. Roedd cydnabyddiaeth eang i'r angen am arweinyddiaeth a chydgyssylltu ar gyfiawnder teuluol ymhlith ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Cafwyd trafodaeth am y ffordd orau i gyflawni hyn ers cyhoeddi ein hadroddiad dros dro. Mae creu corff newydd i gymryd drosodd rhai o'r swyddogaethau presennol a hefyd i gydgyssylltu a dylanwadu ar rai eraill yn fater cymhleth ac yn effeithio ar fuddiannau sefydledig. Mae ystyriaethau ariannol. Mae rhai wedi mynegi pryderon ynghylch effaith bosibl ar annibyniaeth farnwrol. Rydym hefyd yn derbyn i ni fod yn amwys mewn nifer o feysydd yn yr adroddiad dros dro. Felly rydym wedi ailystyried yr amcanion a'r modelau posibl ar gyfer rheoli'r system.
14. Y nod canolog priodol yw rhoi cymorth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder teuluol, gan roi pwyslais penodol ar leihau oedi. Nid yw'n fwriad gennym argymhell newid strwythurol er ei fwyn ei hun. Yr hyn y mae ei angen yw adnodd canolog i bennu, awgrymu a, lle bo'n briodol, gwireddu dulliau ymarferol o wella'r ffordd y mae'r system yn gweithio.
15. Mae angen asesu'r holl opsiynau ar gyfer diwallu'r angen hwn yn ôl eu gallu i gyflawni amryw o swyddogaethau er mwyn:
 - darparu arweinyddiaeth briodol yn genedlaethol ac yn lleol;
 - cytuno ar safonau cenedlaethol ar gyfer asesu'r rheini sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol;
 - sicrhau atebolrwydd clir yn genedlaethol ac yn lleol, a rhwng asiantaethau a gwasanaethau unigol;
 - sicrhau cymhellion i alinio â blaenoriaethau strategol;
 - sicrhau bod cymhwyster a gallu yn genedlaethol ac yn lleol i alluogi'r system i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, a hynny'n cynnwys cynhyrchu gwybodaeth reoli a chymorth i hyfforddi o fewn strategaeth cyfrifoldeb am y gweithlu;
 - gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau'n genedlaethol ac yn lleol i sicrhau gwerth am arian;
 - galluogi ac ysgogi gwelliant parhaus;
 - gallu ymateb i newid.

16. Un maen prawf allweddol pellach yw a fyddai corff newydd mewn lle (o ran statws, rôl gyfreithiol, neu gyllideb) i gael ei gymryd o ddifrif hyd yn oed lle na all roi cyfarwyddiadau.
17. Mae amryw o fodelau posibl. Bydd angen i'r llywodraeth roi ystyriaeth fanwl i ddichonoldeb a goblygiadau'r opsiynau hyn. Bydd unrhyw newid strwythurol yn galw am fuddsoddi. Rydym yn deall nad oes arian newydd ar gael i dalu am newid cyn 2014/15.
18. Ein barn ni yw **y dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gael ei sefydlu, dan nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chysylltiadau cryf ar lefel Weinidogol a lefel swyddogol â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru. Fel cam cyntaf, dylid sefydlu Bwrdd Dros Dro, a ddylai gael cylch gwaith clir i gynllunio ar gyfer newid mwy sylfaenol gan ddilyn amserlen wedi'i diffinio nes sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol.**¹
19. Byddai hyn yn rhoi canolbwynt ac arweinyddiaeth i ddelio â'r materion y mae'r system cyfiawnder teuluol yn eu hwynebu yn gyffredinol. Byddai cyfrifoldeb gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol dros wasanaethau gwaith cymdeithasol llysoedd, a darparu gwasanaethau cyfryngu a datrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Byddai rôl ganddo hefyd wrth osod safonau ansawdd a monitro gwariant mewn cysylltiad â thystion arbenigol. Mae potensial maes o law i'r Gwasanaeth fod â rheolaeth fwy uniongyrchol dros ddarparu tystion arbenigol, yn ogystal â chyfreithwyr i blant. Byddai dod â'r gwasanaethau hyn at ei gilydd yn creu manteision ar ei ben ei hun ac yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gyllideb a phrofiad uniongyrchol o gyflenwi gwasanaethau.
20. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol fod â threfniadau llywodraethu canolog a lleol cryf. Bydd angen y rolau a gyflawnir gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol mewn unrhyw strwythur newydd ond bydd angen eu harfer mewn modd sy'n cydweddu â threfniant terfynol y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol (a'r Bwrdd Dros Dro).**
21. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol fod yn gyfrifol am y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau gwaith cymdeithasol llysoedd yn Lloegr, cyfryngu, gwasanaethau datrys anghydfodau y tu allan i'r llysoedd ac, ymhen amser o bosibl, ar gyfer arbenigwyr a chyfreithwyr i blant.**
22. Yn ein barn ni, nid yw'r polisi sy'n mynnu y dylai cyrff cyhoeddus godi tâl ar ei gilydd am y gwasanaethau y maent yn eu darparu'n un sy'n gwneud synnwyr ym maes cyfiawnder teuluol: un ai y maent yn newid ymddygiad fel eu bod yn creu perygl o niwed i blant, neu nid ydynt, fel eu bod yn ddibwrpas. **Dylid dileu'r ffioedd a godir ar awdurdodau lleol am geisiadau cyfraith gyhoeddus ac ar awdurdodau lleol a Cafcass am wiriadau heddlu mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.**
23. Er mwyn sicrhau bod buddiannau plant yn ganolog, **dylid gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant**

¹ Yn y cyfeiriadau at y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol, rydym yn rhagweld y bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni i ddechrau gan y Bwrdd Dros Dro.

wrth gyflawni ei swyddogaethau. Hefyd dylai adroddiad blynyddol egluro sut mae'r ddyletswydd hon wedi'i chyflawni.

24. Mae'r systemau TG presennol yn hollol annigonol. **Dylid datblygu system TG integredig i'w defnyddio yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ac asiantaethau cyfiawnder teuluol ehangach. Bydd hyn yn galw am fuddsoddi. Yn y cyfamser, dylid cynnal adolygiad brys ynghylch y modd y gellid defnyddio'r systemau presennol yn well.**
25. Bydd rôl gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol hefyd wrth hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn ymarfer ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder teuluol. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu a monitro safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer prosesau system gyfan, wedi'u seilio ar wybodaeth leol a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Dylid cael dull cydgysylltiedig drwy system gyfan o drafod ymchwil a gwerthuso, wedi'i gynnal gan gyllideb wedi'i neilltuo at ymchwil (wedi'i chyfuno o gyllidebau'r gwahanol gyrrff sy'n comisiynu ymchwil ar hyn o bryd). Yn ogystal â hyn, dylid adolygu a gwella'r prosesau ar gyfer lledaenu ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol.**

Arweinyddiaeth a diwylliant barnwrol

26. Mae ein hargymhellion ar hyn wedi'u cyfeirio'n bennaf at y farnwriaeth, nid llywodraeth.
27. Ni ellir sicrhau gwelliannau yn y system cyfiawnder teuluol drwy drefniadaeth a llywodraethu'n unig. Mae newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn gwneud pethau'n hollbwysig ac, yn hyn o beth, mae'r farnwriaeth yn allweddol. Yn aml bydd dim mwy na'u statws cyfreithiol a'u presenoldeb mewn achos yn gatalydd i beri i'r partïon ddatrys y dadleuon rhyngddynt, newid eu hymddygiad neu dderbyn bod cam gweithredu arfaethedig er y budd gorau i'w plant. Ond mae angen newidiadau er mwyn ymdrin â'r amrywiaeth yn y dulliau o weithio mewn gwahanol lysoedd a rhannau o'r wlad.
28. Dylai trefniadau cryfach ar gyfer rheoli ac arweinyddiaeth yn y farnwriaeth fod yn fodd i hybu cysondeb, gwella perfformiad a newid diwylliant. Roedd rhai'n ofni y gallai hyn leihau annibyniaeth farnwrol, ond mae llawer, gan gynnwys rhai o'r barnwyr uchaf eu statws, sy'n credu, fel ninnau, fod rheoli barnwyr gan farnwyr, gyda chymorth dulliau asesu effeithiol a disgrifiadau swydd, yn gwbl gyson â hyn.
29. Dylai **Is-lywydd yn yr Adran Deulu gynorthwyo Llywydd yr Adran Deulu yn ei rôl arwain, gan fonitro perfformiad y farnwriaeth deuluol yn gyffredinol. Dylid ailenwi Barnwyr Cyswllt yr Adran Deulu'n Farnwyr Llywyddol Teuluol, a fydd yn adrodd i'r Is-lywydd am faterion perfformiad yn eu cylchdaith.**
30. **Dylai barnwyr sydd â chyfrifoldebau arwain gael cyfrifoldebau rheoli cliriach. Dylid cael disgrifiadau swydd mwy pendant, sy'n nodi disgwyliadau clir o ran cyfrifoldebau rheoli a gweithio rhwng**

asiantaethau. Dylid trefnu i wybodaeth am ddangosyddion allweddol ar gyfer llysoedd ac ardaloedd fod ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol. Dylid trefnu i wybodaeth am ddangosyddion allweddol ar gyfer barnwyr unigol fod ar gael i'r barnwyr hynny yn ogystal â barnwyr sydd â chyfrifoldebau arwain. Dylai'r farnwriaeth gytuno ar y dangosyddion allweddol.

31. Mae rhai Barnwyr Teulu Dynodedig nad ydynt yn glir ynghylch a yw eu cyfrifoldebau arwain yn cwmpasu Llysoedd Achosion Teuluol. **Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig fod â chyfrifoldeb arwain dros yr holl lysoedd yn eu hardal. Bydd angen iddynt gydweithio'n agos â Chlercod yr Ynadon, cadeiryddion meinciau teulu a chyd-farnwyr.**
32. Mae bron pawb wedi dweud wrthym ar bob cam pa mor bwysig yw cael yr un barnwr drwy gydol yr achos. **Y nod priodol yw cael dilyniant barnwrol yn yr holl achosion teuluol.** Rydym yn derbyn y bydd y nod o sicrhau dilyniant yn galw am newidiadau ym mhatrymau gwaith rhai barnwyr. **Dylai parodrwydd i addasu patrymau gwaith er mwyn gallu cynnig dilyniant fod yn amod ar y gallu i gymryd gwaith teulu.** Os oes rhai llysoedd sy'n gallu sicrhau dilyniant, dylai fod yn bosibl ym mhob un.
33. Mae rhwystrau ymarferol rhag gweithredu ar unwaith yn yr Uchel Lys, ond **dylai Llywydd yr Adran Deulu ystyried pa gamau y dylid eu cymryd i ganiatáu modd i sicrhau dilyniant ymysg barnwyr yn yr Uchel Lys.** Mewn Llysoedd Achosion Teuluol, dylai dilyniant barnwrol gael ei ddarparu, os oes modd, gan holl aelodau'r fainc a chynghorydd cyfreithiol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid darparu dilyniant drwy'r un cadeirydd mainc, aelod mainc a chynghorydd cyfreithiol.
34. Nid yw'r rheini sy'n treulio'r rhan leiaf o'u hamser ar faterion teuluol yn meddu ar yr hyder y mae ei angen i reoli achosion yn dynn a byddant yn ei chael yn anodd sicrhau dilyniant barnwrol. **Dylid galluogi ac annog barnwyr ac ynadon i arbenigo mewn materion teuluol. Wrth benodi i'r farnwriaeth deuluol dylid cynnwys ystyriaeth i barodrwydd i arbenigo mewn materion teuluol.** Rydym wedi clywed sylwadau gan ynadon i'r perwyl bod y cyfyngiad ar nifer y diwrnodau y cânt eistedd yn ddiangen ac yn atal arbenigo mewn materion teuluol. **Dylid adolygu'r cyfyngiad at ddiwrnodau eistedd ynadon.**
35. Mae rheolaeth gadarnach ar achosion yn mynd law yn llaw â dilyniant barnwrol. Rhaid i bawb yn y system chwarae ei ran i helpu i symud achosion yn eu blaen yn effeithiol. Mae cymorth i symud achosion yn eu blaen yn rhan annatod o'r swyddogaethau y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLIThEM) eu darparu i'r farnwriaeth. Mae angen hefyd i'r farnwriaeth chwarae rhan weithredol wrth sicrhau bod materion yn cael eu dilyn yn effeithiol pan nad yw partiön yn symud ymlaen â'r achos yn ôl y disgwyl. **Dylai GLIThEM a'r farnwriaeth adolygu a chynllunio ynghylch sut i reoli achosion mewn llysoedd mewn modd sy'n gyson effeithiol.**

Y llysoedd

36. Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cydweithio agosach rhwng y tri math gwahanol o lys teulu. Ond mae anawsterau ac anghysonderau o hyd, ac amrywiadau mawr yn genedlaethol o ran y modd y caiff gwahanol achosion eu dyrannu i wahanol lysoedd. Mae strwythur presennol y llysoedd teulu'n eithaf anhyblyg hefyd. **Dylai llys teulu sengl, gydag un pwynt mynediad, gymryd lle tair haen bresennol y llysoedd. Dylai rhai ar bob lefel yn y farnwriaeth deuluol (gan gynnwys ynadon) eistedd yn y llys teulu a dylid dyrannu gwaith yn ôl cymhlethdod yr achos.**
37. Byddai dileu'r gwahaniaethau rhwng gwahanol fathau o Farnwyr Rhanbarth yn fodd i gael mwy o hyblygrwydd mewn llys teulu sengl. **Dylid alinio rolau Barnwyr Rhanbarth sy'n gweithio yn y llys teulu.** Yn ogystal â chael mwy o hyblygrwydd o ran y modd y caiff barnwyr eu lleoli, **dylid cael hyblygrwydd er mwyn i gynghorwyr cyfreithiol ymgymryd â gwaith i helpu barnwyr ym mhob rhan o'r llys teulu.**
38. Ni ddylid tanseilio statws yr Uchel Lys wrth greu llys teulu sengl. **Dylai Adran Deulu'r Uchel Lys barhau, gydag awdurdodaeth unigryw dros achosion sy'n ymwneud â'r awdurdodaeth gynhenid a gwaith rhyngwladol sydd wedi'i ragnodi gan Lywydd yr Adran Deulu fel gwaith sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer. Dylid gwrando pob mater arall yn y llys teulu sengl, gyda barnwyr yr Uchel Lys yn eistedd yn y llys hwnnw i wrando'r achosion a dadleuon mwyaf cymhleth.**
39. Dylai'r darparu ar gyfleusterau llys fod yn fwy hyblyg hefyd. **Dylid defnyddio technoleg ffôn neu fideo ar gyfer gwrandawiadau arferol lle bynnag y mae'n briodol. Os nad oes angen cynnal gwrandawiadau mewn ystafell llys, dylid eu cynnal mewn man arall. Dylai adeiladau llys fod mor ystyriol ag sy'n bosibl o deuluoedd er mwyn datrys y gŵyn gyffredin bod llysoedd yn lleoedd sy'n codi ofn a braw ar deuluoedd.**
40. Bydd angen buddsoddi cyfalaf yn y tymor hwy os oes bwriad i gael adeiladau un pwrpas ar gyfer llysoedd teulu. Hyd yn oed os na cheir hyn **dylai GLIThEM adolygu'r ystad ar gyfer llysoedd teulu i leihau nifer yr adeiladau lle y gwrandewir achosion, i hybu effeithlonrwydd, dilyniant barnwrol ac arbenigo. Dylid gwneud eithriadau ar gyfer ardaloedd gwledig lle mae cludiant yn wael. Mae anghenion Llundain yn galw am sylw penodol. Dylai gweithrediad a threfniant y llysoedd teulu yn Llundain fod yn destun adolygiad pellach gan y farnwriaeth a GLIThEM.**

Y gweithlu

41. Mae sgiliau ac agweddau pobl cyn bwysiced o leiaf â deddfwriaeth a phrosesau wrth hybu diwygiadau yn y system cyfiawnder teuluol. Ers cyhoeddi ein hadroddiad dros dro rydym wedi cwrdd â chyrff hyfforddi a chynghorau sgiliau sector gan gasglu, ymhlith pethau eraill, wybodaeth am anghenion recriwtio, yr arlwy dysgu a datblygu a chynlluniau rheoli perfformiad, er mwyn cymharu darpariaeth a phennu meysydd i'w gwella.

42. Rydym wedi nodi bod diffyg cyfle i bobl ddysgu gyda'i gilydd, i gael dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau ac i gydweithio i ddatrys problemau. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu strategaeth gweithlu ynghyd â set gytûn o sgiliau a gwybodaeth graidd. Yn ogystal â hyn, dylid cael cwrs sefydlu rhyngddisgyblaethol ar gyfer pawb sy'n dod i weithio yn y system cyfiawnder teuluol.**
43. Mae'n amlwg bod datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn bwysig i gadw pobl yn wastad â newidiadau yn y gyfraith, mewn arferion a'r ymchwil ddiweddaraf. **Dylai cyrff proffesiynol adolygu cynlluniau DPP i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn addas mewn cysylltiad â chyfiawnder teuluol.**
44. Er bod rhywfaint o hyfforddiant ar y cyd, mae'n amrywio o ran maint ac ansawdd. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu blaenoriaethau blynyddol ar gyfer hyfforddiant rhyngddisgyblaethol i'r gweithlu er mwyn llywio cynnwys hyfforddiant rhyngddisgyblaethol yn lleol.**
45. Mae'r naill adolygiad ar ôl y llall o wasanaethau amddiffyn plant wedi pwysleisio pa mor bwysig yw rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ac ymarferwyr. Mae'r un peth yn wir am gyfiawnder teuluol ond mae diffyg trafodaeth ac adborth ar ansawdd i gyfrannu at welliannau mewn ymarfer yn arafu cynnydd. **Dylid sefydlu cynllun peilot lle byddai barnwyr ac ynadon yn dysgu am y canlyniadau i blant a theuluoedd y maent wedi dyfarnu yn eu cylch. Hefyd dylid cael system o adolygiadau achos o brosesau i helpu i sefydlu ymarfer myfyriol yn y system cyfiawnder teuluol.**
46. Rydym yn croesawu sefydlu'r Coleg Barnwrol. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd fod hyfforddiant ar wahân gan bob awdurdodaeth. Gallai fod yn well cael set graidd o hyfforddiant sy'n gyffredin i'r holl feysydd a modiwlau ar wahân wedyn ar gyfer y gwahanol awdurdodaethau. **Dylai'r Coleg Barnwrol adolygu'r dull o ddarparu hyfforddiant er mwyn pennu'r manteision o ddarparu cwrs sgiliau barnwrol craidd ar gyfer holl aelodau newydd y farnwriaeth. Dylid datblygu hyfforddiant hefyd i helpu barnwyr uwch i gyflawni eu cyfrifoldebau arwain.**
47. Beth bynnag fydd strwythur yr hyfforddiant, **dylai hyfforddiant barnwrol ar gyfer gwaith teuluol gynnwys mwy o bwyslais ar ddatblygiad plant a rheoli achosion.** Mae'r dull o hyfforddi'n bwysig hefyd. **Dylai hyfforddiant sefydlu i farnwyr gynnwys ymweliadau ag asiantaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r system er mwyn cael profiad o feysydd eraill. Dylid cael disgwyliad y bydd holl aelodau'r farnwriaeth leol, yn cynnwys y fainc leyg a chynghorwyr cyfreithiol sy'n ymwneud â gwaith teuluol, yn dod at ei gilydd mewn gweithgareddau hyfforddi.**
48. Mae'r hierarchaeth farnwrol yn troi'n gynyddol, ac yn briodol hefyd, yn hierarchaeth reoli. **Yn dilyn cynhadledd flynyddol y Llywydd dylid cael cyfarfodydd ar lefel cylchdeithiau rhwng y Barnwyr Llywyddol Teuluol a'r uwch farnwriaeth yn eu hardaloedd i drafod y dull o gyflawni busnes**

teuluol. Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r barnwyr y maent yn gyfrifol am eu harwain.

49. Rydym yn ymwybodol y gall gwaith teulu greu straen emosiynol aruthrol, gan wneud drwg i iechyd a lles meddyliol. **Dylid cefnogi barnwyr a rhoi iddynt y sgiliau y mae eu hangen i roi mwy o gymorth i'w gilydd.**
50. Rydym hefyd yn argymhell rhai newidiadau yn yr hyfforddiant i ynadon teulu a'u cynghorwyr cyfreithiol er bod y dulliau o hyfforddi a rheoli ynadon ar y blaen i'r rhai ar gyfer y farnwriaeth, gan fod ganddynt gynllun arfarnu a mentora rheolaidd. **Dylai hyfforddiant sefydlu i ynadon teulu newydd gynnwys mwy o bwyslais ar reoli achosion, datblygiad plant ac ymweliadau ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r system. Dylai cynghorwyr cyfreithiol gael hyfforddiant penodol ar reoli achosion hefyd.**
51. Mae cyfreithwyr yn cyflawni rôl bwysig wrth sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn gyflym, wrth helpu teuluoedd i negodi setliadau a didoli'r pynciau mewn dadl. Fodd bynnag, rydym wedi cael tystiolaeth nad yw'r canllawiau yn Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 yn cael eu dilyn bob amser pan fydd cyfreithwyr yn cyfarwyddo tystion arbenigol. **Dylai cyrff proffesiynol cyfreithwyr ddarparu cyfleoedd hyfforddi i gyfreithwyr, drwy gydweithio â grwpiau sy'n cynrychioli tystion arbenigol, ynghylch sut i ddrafftio cyfarwyddiadau effeithiol ar gyfer tystiolaeth gan arbenigwyr.**
52. Dylid addysgu gweithwyr cymdeithasol am brosesau a gweithdrefnau cyfreithiol perthnasol ac, yn benodol, am yr hyn y mae'r llys yn disgwyl iddynt ei gyflwyno a sut i'w gyflwyno. **Dylai'r Coleg Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru ystyried rhoi canllawiau i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch ynghylch addysgu sgiliau llys, a hynny'n cynnwys sut i ddarparu asesiadau o ansawdd uchel sy'n disgrifio hanes y plentyn ar ffurf naratif clir. Dylent hefyd ystyried gyda chyflogwyr a yw hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yn cynnwys pwyslais digonol ar ddatblygiad plant, ar gyfer y gweithwyr cymdeithasol hynny sy'n dymuno mynd ymlaen i weithio gyda phlant.**
53. Gwyddom fod rhai Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant yn Lloegr nad ydynt o bosibl wedi ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol eu hunain. **Dylai'r Bwrdd Gwella i Blant ystyried pa hyfforddiant a phrofiad gwaith sy'n briodol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant sydd heb ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol.**

Tryloywder ac ymddiriedaeth y cyhoedd

54. Roedd trafodaeth fyr yn ein hadroddiad dros dro ynghylch mynediad gan y cyfryngau i lysoedd teulu er nad oedd hyn yn rhan o'n cylch gorchwyl. Mae hwn yn faes cymhleth, sy'n galw am ystyriaeth bellach gan lywodraeth. Rydym yn croesawu'r argymhelliad gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder na ddylid gweithredu'r cynllun i gynyddu mynediad gan y cyfryngau i lysoedd sydd yn Rhan 2 o Ddeddf Plant, Ysgolion a Theuluoedd 2010.

Y gyfraith gyhoeddus

Pam y mae angen newid

55. Achosion cyfraith gyhoeddus yw'r mecanwaith y gall y wladwriaeth ei ddefnyddio i ymyrryd yn gyfreithlon mewn bywyd teuluol i amddiffyn plant. Gallant fod yn gymhleth ac yn llawn gwrthdaro dwys. Mae'r system o dan bwysau mawr a chynyddol – mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu fel y mae'r amser a gymerir i'w gwaredu. Nid yw cyfnod o fwy na blwyddyn ar gyfartaledd i drafod achos yn dderbyniol.
56. Mae oedi'n fater difrifol ac mae'n gwneud drwg i blant. Os ceir oedi mewn achos:
- gallai hynny amddifadu plant o gyfle i gael cartref parhaol, yn enwedig drwy fabwysiadu;
 - gall arwain at effeithiau hirdymor niweidiol ar ddatblygiad plentyn;
 - gallai beri i blant fod yn agored i fwy o berygl;
 - mae'n achosi gofid a gorbryder i blant sydd wedi cael niwed eisoes.
57. Mae'r system yn ei chael yn anodd dygymod â phwysau ei chyfrifoldebau. Mae cydymdeimlad dealladwy â rhieni ac ymwybyddiaeth effro o bwysigrwydd y penderfyniadau'n symbylu'r dymuniad i chwilio pob ffordd. Mae'r syniad o ddull gweithredu cymesur fel petai'n awgrymu perygl o wrthod hawl y rhiant i gael gwrandawriad teg. Dywedwyd wrthym fod hawl y rhieni i gael gwrandawriad teg wedi cael blaenoriaeth yn rhy aml dros y prif angen i sicrhau lles y plentyn, ac rydym yn derbyn hynny.
58. Y nod yn ein cynigion yw rhoi buddiannau'r plentyn yn ôl ar ganol y broses a sicrhau system sydd:
- yn canolbwyntio'n ddiwyro ar y plentyn;
 - yn gwrthod derbyn oedi fel peth cyffredin;
 - yn derbyn cyfrifoldeb am ddefnyddio adnoddau, ac yn gwario pob punt yn y ffordd fwyaf effeithiol;
 - yn gweithio drwy gydweithredu ar draws asiantaethau;
 - yn cyflenwi gwasanaethau'n gyson;
 - yn parchu hawliau rhieni, ac yn cynnig cymorth effeithiol iddynt.

Rôl y llys

59. Rydym yn cynnig bod **rhaidd i lysoedd barhau i chwarae rhan ganolog yn y gyfraith gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr**. Mae'r fframwaith sylfaenol a grëwyd gan Ddeddf Plant 1989 yn gadarn. Mae hyn yn gosod cyfrifoldebau gwahanol ar y llysoedd ac awdurdodau lleol. Mater i'r llys yw penderfynu pwys a ddylai arfer cyfrifoldeb rhiant dros blentyn. Os mai'r awdurdod lleol fydd hwnnw, dylai wneud hynny fel arfer heb ymwneud pellach gan y llys.

60. Nid oes fawr o amheuaeth nad yw llysoedd ers 1989 wedi ymestyn yn raddol eu craffu ar y cynllun gofal a gynigir gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn achosi dyblygu ac oedi.
61. Credwn fod craffu o'r fath gan lysoedd yn mynd ymhellach na'r hyn y mae ei angen i benderfynu a yw gorchymyn gofal er y budd gorau i blentyn. Mae'n debygol y bydd angen i gynlluniau gofal newid dros amser. Nid yw llysoedd yn gymwys iawn i graffu ar gynlluniau gofal ac nid yw'r ymwneud ganddynt yn gwarantu llwyddiant. Mae angen hefyd i ni bwysu'r budd posibl yn erbyn y gost a'r amser y mae'n ei gymryd.
62. Felly rydym yn argymhell **y dylai llysoedd ganolbwyntio o'r newydd ar yr ystyriaethau craidd o ba un a fydd y plentyn yn byw gyda rhieni, neu aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, neu'n cael ei symud i fod o dan ofal yr awdurdod lleol.** Dylai agweddau eraill a manylion y cynllun gofal fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Wrth benderfynu a yw gorchymyn gofal er y budd gorau i'r plentyn, ni fydd angen fel arfer i'r llys graffu ar holl fanylion cynllun gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y plentyn. Yn hytrach **dylai'r llys ystyried elfennau canolog neu hanfodol cynllun y plentyn yn unig. Rydym yn cynnig mai'r rhain yw:**
- cynllun i ddychwelyd y plentyn i'w deulu;
 - cynllun i leoli (neu ystyried lleoli) plentyn gydag aelodau o'i deulu neu ffrindiau;
 - trefniadau gofal eraill;
 - cyswllt â'r teulu biolegol i'r graddau o benderfynu a ddylai fod yn rheolaidd, yn gyfyngedig neu'n ddim.
63. Dylai'r llysoedd fod ag awdurdodaeth dros faterion cyswllt a chredwn fod dadl bosibl o blaid ymestyn pwerau'r llys ynghylch cyswllt â siblingiaid. **Rydym yn argymhell y dylai llywodraeth ymgynghori ynghylch a ddylid diwygio adran 34 o Ddeddf Plant 1989 i hyrwyddo cyswllt rhesymol â siblingiaid, ac i ganiatáu i siblingiaid wneud cais am orchmynion cyswllt heb ganiatâd y llys.**
64. Er hynny, nid y llys yw'r lle gorau i ddatrys materion cyswllt a byddem yn disgwyl i adran 34 gael ei defnyddio fel eithriad yn unig.

Y berthynas rhwng llysoedd ac awdurdodau lleol

65. Roedd ymatebion i'n hymgyngoriad yn ogystal ag ymchwil ddiweddar yn dangos drwgdybiaeth o awdurdodau lleol a beirniadaeth anghytbwys o ofal cyhoeddus a oedd wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn rhai achosion. Mae angen rhoi sylw i hyn a dylai llysoedd ac awdurdodau lleol gydweithio i ddelio â'r berthynas sydd rhyngddynt sy'n gamweithredol ar adegau. **Dylid cael deialog ar lefel genedlaethol a lleol rhwng y farnwriaeth ac awdurdodau lleol. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol hwyluso hyn. Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwyr**

Gwasanaethau Cymdeithasol gwrdd yn rheolaidd i drafod materion cyffredin.

66. **Mae angen i awdurdodau lleol a'r farnwriaeth drafod amrywioldeb arferion awdurdodau lleol mewn cysylltiad â phenderfyniadau trothwy a phryd y byddant yn sbarduno ceisiadau gofal.** Mae hyn yn galw hefyd am drafodaeth ar lefel genedlaethol a lleol. **Dylai llywodraeth hybu'r trafodaethau hyn drwy raglen barhaus o ddadansoddi ac ymchwil.**
67. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gall awdurdodau lleol ddisgwyl yn rhy hir cyn cychwyn achos ac nad ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar raddfeydd amser plant, gan roi amcan rhy isel o effaith esgeuluso a cham-drin emosiynol tymor hir. **Dylai canllawiau diwygiedig Working Together a'r canllawiau perthnasol yng Nghymru dynnu sylw at bwysigrwydd graddfeydd amser plant a'r defnydd priodol o achosion llys wrth gynllunio ar gyfer plant ac mewn gweithgarwch amddiffyn plant strwythuredig.**

Rheoli achosion

68. Mae dull cadarn o reoli achosion gan farnwyr yn bwysig er mwyn lleihau oedi. Mae ystadegau ac ymchwil ynghylch hyd achosion yn dangos nad yw'r rheolaeth ar achosion ledled y wlad yn ddigon cadarn neu gyson. Wrth ddiwygio hyfforddiant a datblygiad barnwyr, mae angen rhoi pwyslais ar ddealltwriaeth o ddatblygiad plant a sut mae'n effeithio ar raddfeydd amser plant ac, o ganlyniad, ar benderfyniadau ynghylch rheoli achosion. Dylai barnwyr gael gwybodaeth yn rheolaidd am y canfyddiadau diweddaraf o ymchwil i'r materion hyn a materion eraill sy'n berthnasol. Mae angen hefyd i'r hyfforddiant hwn fod o gymorth i farnwyr ddeall gwerth (neu ddiffyg gwerth) mathau penodol o asesu gan arbenigwyr.
69. Dylai'r farnwriaeth fod yn fwy cyson o ran ei dull o reoli achosion. **Mae gwahanol lysoedd yn defnyddio gwahanol ddulliau o reoli achosion yn y gyfraith gyhoeddus. Mae angen i'r farnwriaeth gasglu'r rhain, ymchwilio iddynt a'u lledaenu er mwyn rhannu'r arferion gorau a sicrhau cysondeb.**
70. Nid yw hyn yn ddigon ar ei ben ei hun i fynd i'r afael ag oedi. Mae achosion yn cymryd gormod o lawer o amser ac mae ymdrechion blaenorol i fynd i'r afael â hyn wedi methu. Mae angen dull cadarn o weithredu. **Dylai llywodraeth ddeddfu i ddarparu pŵer i osod terfyn amser ar achosion gofal. Dylid pennu'r terfyn amser mewn is-ddeddfwriaeth. Dylid gosod y terfyn amser ar gyfer cwblhau achosion gofal a goruchwyliaeth ar chwe mis. Dylid cael darpariaethau trosiannol.**
71. Rydym yn cydnabod na fyddai terfyn amser yn ddigon ar ei ben ei hun ychwaith i warantu llwyddiant ond byddai'n ganolbwynt effeithiol i'r rhaglen bellgyrhaeddol o ddiwygio sylfaenol y mae ei hangen. Yn benodol, dylai fod o gymorth i chwalu'r hyn sydd wedi'i alw'n ddiwylliant o oedi derbynol.

72. Cyfrifoldeb barnwr y treial fyddai bodloni'r terfyn amser. Byddid yn caniatáu estyniadau i'r terfyn amser o chwe mis fel eithriad yn unig. Os oedd barnwr treial yn bwriadu ymestyn achos y tu hwnt i chwe mis, byddai angen iddo ofyn am gytundeb y Barnwr Teulu Dynodedig/Barnwr Llywyddol Teuluol fel y bo'n briodol.
73. **Rhaid i farnwyr osod amserlenni pendant ar gyfer achosion. Wrth wneud penderfyniadau am amserlennu a rheoli achosion, rhaid canolbwyntio ar y plentyn a chyfeirio'n benodol at anghenion a graddfeydd amser y plentyn. Mae dadl gryf dros gydnabod y cyfrifoldeb hwn yn benodol mewn deddfwriaeth sylfaenol.**
74. Byddai gweithredu terfyn amser statudol yn galw am waith paratoi trwyadl a helaeth, trafod, a hyfforddiant. Byddai hyn yn cymryd amser a byddai angen treialu a rhagbrofi dulliau gweithredu newydd. Ni allai ddigwydd ar ei ben ei hun. Byddai'n galw am gyflawni'r newidiadau eraill yr ydym yn eu cynnig yn llwyddiannus. Yn benodol, mae dilyniant barnwrol yn hanfodol.
75. Er mwyn cwblhau achosion gofal o fewn terfyn amser, byddai angen gwelliant sylweddol mewn prosesau a gweithdrefnau. **Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG) yn sylfaen gadarn ar gyfer dull o reoli achosion sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Nid yw'n dderbyniol bod anghysondeb wrth ei weithredu rhwng llysoedd ac rydym yn annog y farnwriaeth uwch i fynnu bod pob llys yn ei ddilyn.**
76. **Byddai cyflwyno terfynau amser a newidiadau eraill sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad hwn yn creu'r angen i ailfodelu'r ACG. Dylai'r farnwriaeth ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid ar yr ailfodelu hwn. Mae'r newidiadau'n cynnig cyfle i roi prawf ar ddulliau newydd o weithredu, ynghylch amseriad y camau i ganfod trothwy, er enghraifft.**
77. **Dylid diwygio'r gofyniad i adnewyddu Gorchmynion Gofal a Goruchwyliaeth Dros Dro ar ôl wyth wythnos ac wedyn bob pedair wythnos. Dylid caniatáu disgresiwn i farnwyr roi gorchmynion dros dro am y cyfnod y maent yn ei ystyried orau hyd at gyfnod hwyaf o chwe mis ac nid ymhellach na'r terfyn amser ar gyfer yr achos. Dylid clymu pŵer y llys i adnewyddu wrth ei bŵer i ymestyn achos y tu hwnt i'r terfyn amser.**
78. Mae craffu gan baneli mabwysiadu ar gynllun sefydlogrwydd ar gyfer plentyn yn dyblygu gwaith a wneir gan y llys. **Dylid dileu'r gofyniad i baneli mabwysiadu awdurdodau lleol ystyried addasrwydd plentyn i'w fabwysiadu lle mae achos y plentyn hwnnw gerbron y llys.** Credwn y dylai'r craffu manwl gan y llys ar yr achosion hyn fod yn ddigon.

Arferion awdurdodau lleol

79. Mae awdurdodau lleol yn allweddol i achosion llys. Mae rhaglen newid helaeth yn dechrau'n awr yng Nghymru a Lloegr i leihau biwrocratiaeth ac ailganolbwyntio arferion gwaith cymdeithasol ar waith uniongyrchol gyda theuluoedd. Bydd angen i'r system cyfiawnder teuluol ehangach gadw'n

wastad â'r diwygio hwn drwy hyfforddiant i farnwyr, cyfreithwyr a gweithwyr cymdeithasol llysoedd. Mae angen datblygu partneriaethau lleol cryf lle y gellir trafod ymarfer a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Mae angen i arweinwyr awdurdodau lleol ymdrin yn gadarn ac yn uniongyrchol â'r oruchwyliaeth ar ymarfer a pherfformiad awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag achosion cyfraith gyhoeddus.

80. Un o'r prif flaenoriaethau i awdurdodau lleol a'r farnwriaeth yw delio ag amharodrwydd llysoedd i ddibynnu ar asesiadau gan awdurdodau lleol. Mae angen i asesiadau ac adroddiadau gynnwys manylion priodol, bod wedi'u seilio ar dystiolaeth a bod yn glir o ran eu dadleuon. **Rydym yn cynnig y dylai'r farnwriaeth, dan arweiniad swyddfa'r Llywydd ac awdurdodau lleol drwy eu cyrff cynrychiadol, roi ystyriaeth frys i'r safonau y dylid eu gosod, ac y dylai gylchredeg enghreifftiau o'r arferion gorau.**
81. Mae'n amlwg bod gwerth i waith cyn achosion ac **rydym yn cymell defnyddio'r 'Llythyr Cyn Achos'.** Rydym yn argymhell adolygu ei weithrediad pan fydd ymchwil ar gael ynghylch ei effaith.
82. Mae rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) yn bwysig i awdurdodau lleol a byddent yn debygol iawn o'i hail-greu os câi ei chymryd oddi arnynt. Dylid rhoi blaenoriaeth i wella ansawdd y swyddogaeth a sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn weladwy. **Rydym yn argymhell y dylai awdurdodau lleol adolygu gweithrediad eu gwasanaeth SAA i sicrhau ei fod yn effeithiol. Yn benodol, dylent sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau ynghylch llwythi achosion.**
83. **Rydym yn argymhell y dylai Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Arweiniol dros Blant gael adroddiadau rheolaidd gan yr SAA ar y gwaith a gyflawnwyd a'i ganlyniadau. Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried adroddiadau o'r fath hefyd.**
84. **Byddai llysoedd yn elwa o gael y wybodaeth hon hefyd ochr yn ochr â chanlyniadau achosion gofal. Dylai'r cynllun peilot a argymhellwyd yn gynharach (gweler paragraff 45) gynnwys gwybodaeth oddi wrth yr SAA.**
85. **Mae angen i'r llysoedd a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ddatblygu cysylltiadau mwy effeithiol. Dylai gwarcheidwaid a Swyddogion Adolygu Annibynnol gryfhau eu perthynas weithio.**

Tystion arbenigol

86. Bydd yn rhaid wrth dystiolaeth arbenigol yn aml er mwyn cael proses llys sy'n deg ac yn gyflawn. Ond mae cynnydd yn y defnydd o arbenigwyr yn ffactor sy'n cyfrannu'n helaeth bellach at oedi annerbyniol. Rhaid i raddfeydd amser y plentyn fod yn fwy o ddylanwad ar y penderfyniad i gomisiynu adroddiadau a rhaid i farnwyr orchymyn dim ond yr adroddiadau hynny sy'n gwbl angenrheidiol i benderfynu'r achos. **Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol ategu bod rhaid dal sylw wrth gomisiynu**

adroddiad gan arbenigwr ar effaith yr oedi ar les y plentyn. Dylai fynnu mai dim ond pan fo tystiolaeth arbenigol yn angenrheidiol i ddatrys yr achos y dylid ei chomisiynu. Byddai angen diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Teulu i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

87. Ni ddylai'r llys ofyn am ddeunydd gan dyst arbenigol oni bai fod y wybodaeth honno heb fod ar gael, ac na ellir trefnu iddi fod ar gael yn briodol, oddi wrth bartïon sydd eisoes yn gysylltiedig â'r achos. Dylid defnyddio gweithiwr cymdeithasol annibynnol fel eithriad yn unig oherwydd, ar ôl ei gyfarwyddo, ef fydd y trydydd gweithiwr cymdeithasol hyfforddedig i roi ei fewnbwn i'r llys.
88. Rydym yn bryderus o hyd ynghylch gwerth asesiadau preswyl o allu rianta, yn enwedig o'u hystyried yng nghyd-destun eu cost a diffyg tystiolaeth glir o'u manteision. **Dylid comisiynu ymchwil i ystyried gwerth asesiadau preswyl o rieni.**
89. Yn unol â'n hargymhellion ar reoli achosion **rhaid i farnwyr lywio'r broses o gytuno ar dystion arbenigol a'u cyfarwyddo fel rhan sylfaenol o'u cyfrifoldeb dros reoli achosion.** Ni ddylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei ddirprwyo i gynrychiolwyr y partïon, fel y gwneir yn aml ar hyn o bryd. Mae angen arfer mwy o reolaeth farnwrol dros lythyrau cyfarwyddo sy'n aml yn rhy hir a heb eu canolbwyntio'n ddigonol ar y materion a fydd yn penderfynu'r achos. **Yn y gorchymyn sy'n rhoi caniatâd i gomisiynu'r tyst arbenigol, dylai'r barnwr nodi'r cwestiynau y dylai'r arbenigwr ganolbwyntio arnynt.** Gwneir hyn fel arfer ar ôl trafodaethau â phartïon.
90. Yn rhy aml ni fydd arbenigwyr ar gael yn amserol, ac mae ansawdd eu gwaith yn amrywiol. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gymryd cyfrifoldeb a chydweithio â'r Adran Iechyd ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd a chyflenwad y gwasanaethau gan dystion arbenigol.** Mae nifer o opsiynau i'w hystyried a'u treialu.
91. Prin yw gwybodaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol am gost y tystion arbenigol y mae'n talu amdanynt, ac am y defnydd ohonynt. **Dylai'r Comisiwn goladu data'n rheolaidd ar arbenigwyr fesul achos ac yn ôl y math o arbenigwr, yr amser a gymerir, cost ac unrhyw ffactor perthnasol arall, ac yn ôl y llys a'r ardal.**
92. Mewn adroddiad diweddar gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol, ystyriwyd sampl o adroddiadau seicolegol gan arbenigwyr. Nodwyd bod problemau difrifol o ran eu hansawdd a chymwysterau'r rheini sy'n eu paratoi. Mae angen astudiaethau pellach o'r math hwn. **Rydym yn argymhell y dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gomisiynu astudiaethau o'r adroddiadau gan dystion arbenigol a gyflenwyd gan wahanol broffesiynau. Dylid datblygu safonau ansawdd cytûn ar gyfer tystion arbenigol yn y llysoedd teulu.** Gellid ei wneud yn ofyniad i'r safonau gael eu bodloni cyn cymeradwyo taliadau i arbenigwyr.

93. Mae timau amlddisgyblaethol yn meddu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth asesu arbenigol gwell i'r llysoedd ond nid oedd y cynllun peilot gwreiddiol yn cynnig sail i'w roi ar waith yn llawn. **Dylid symud ymlaen â chynllun peilot pellach ar gyfer timau tystion arbenigol amlddisgyblaethol, gan ddatblygu'r hyn a ddysgwyd yn y cynllun peilot gwreiddiol.** Mae ymgysylltu llwyddiannus â'r GIG yn allweddol.
94. Mae anfodlonrwydd ynghylch y dull o dalu arbenigwyr. **Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol adolygu'r mecanweithiau sydd ar gael i dalu tystion arbenigol, a dylai ailystyried maes o law a ellid talu arbenigwyr yn uniongyrchol.** Mae'n rhy gynnar i ddod i'r casgliad y bydd y gostyngiad diweddar o 10% yng nghyfraddau tystion arbenigol yn effeithio ar y cyflenwad o arbenigwyr, ond dylai'r llywodraeth fonitro hyn.

Cynrychiolaeth plant

95. Mae'r model tandem yn rhoi cynrychiolaeth i blant mewn achosion drwy gyfreithiwr a thrwy weithiwr cymdeithasol profiadol (a elwir yn warcheidwad). Mae cefnogaeth eang i hyn. **Mae'r model tandem yn fesur diogelu pwysig a dylid ei gadw gan flaenoriaethu adnoddau a'u dyrannu'n ofalus.** Rhaid cadw annibyniaeth y gwarcheidwad yn yr achos unigol. Mae'n dal yn ofynnol i'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau gwaith cymdeithasol llys a gwarcheidwaid gael ei reoli'n briodol.
96. Dylid ymchwilio i ddulliau eraill o weithio. **Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r fantais o ddefnyddio gwarcheidwaid cyn achosion a model tandem mewnol.** Mewn cysylltiad â chyfreithwyr mewnol, byddai'r effeithiau ehangach ar argaeledd cyfreithwyr ym maes gwaith teuluol yn ffactor penodol i'w ystyried.

Dewisiadau yn lle achosion llys confensiynol

97. Byddai prosesau eraill sydd â'r amcan o osgoi achosion llys neu ddatrys anghytundeb rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd y tu allan i'r ystafell llys yn gallu lleihau gofid a hyrwyddo cymorth gwell i deuluoedd. Dylid ymchwilio ymhellach i'w potensial ond rhaid gofalu na cheir oedi pellach o ganlyniad.
98. **Dylid cael cydnabyddiaeth fwy eang i fanteision Cynadleddau Grŵp Teuluoedd a dylid ystyried eu defnyddio cyn achosion llys.** Mae angen mwy o ymchwil i'r defnydd gorau ohonynt, eu manteision a'r costau.
99. Mae potensial mewn cyfryngu hefyd a **dylid sefydlu cynllun peilot ar y defnydd o ddulliau cyfryngu ffurfiol mewn achosion cyfraith gyhoeddus.**
100. **Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Llys Achosion Teuluol Llundain Fewnol yn dangos cryn addewid.** Dylid ehangu'r defnydd ohono dan gyfyngiadau er mwyn dal i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth. Dylid ategu hyn drwy ymchwil i'r costau cyffredinol i ddefnyddwyr a'r canlyniadau tymor hir i blant a theuluoedd.

101. Prin yw'r cymorth sydd ar gael i rieni ar ôl achosion ar hyn o bryd. **Dylid datblygu cynigion i dreialu dulliau newydd o gynorthwyo rhieni yn ystod achosion llys ac wedyn.** Gellid lliniaru'r gofid, y niwed a'r gost a geid yn ddiweddarach drwy gymorth gan weithwyr iechedd proffesiynol ac eraill.

Y gyfraith breifat

Pam y mae angen newid

102. Mae'r materion sy'n codi pan fydd teuluoedd yn gwahanu'n gymhleth ac yn llawn emosiwn fel arfer. Mae'r rheini sy'n defnyddio'r gyfraith breifat yn ymgodumu â holl gythrwfl y gwahanu. Y perygl yw y gall y broses gyfreithiol o wahanu fod yn achos niwed pellach ar ei phen ei hun. Gallai trefniadau a osodir gan y llys fod yn anhyblyg a gallent fethu'n hwyr neu'n hwyrach.
103. Bydd y rhan fwyaf o gyplau sy'n gwahanu'n gwneud eu trefniadau eu hunain i ofalu am eu plant a rhannu eu hasedau, heb orfod cychwyn achos llys. Bydd angen mwy o gymorth ar eraill, boed hynny drwy wasanaethau datrys anghydfodau neu benderfyniad barnwrol.
104. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos ei bod yn well i rieni ddatrys pethau drostynt eu hunain os gallant. Maent felly'n fwy tebygol o ddod i ddealltwriaeth a fydd yn caniatáu i drefniadau newid wrth iddynt hwy a'u plant newid. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gallu elwa o gael gwell gwybodaeth i hwyluso hyn. Mae angen cymorth ar eraill i ddod o hyd i ffyrdd i ddatrys anghydfodau heb gychwyn achos llys. Mae angen gwasanaeth o ansawdd uchel sydd hefyd yn gallu delio'n briodol ag unrhyw beryglon iddynt hwy a'u plant. Ac os bydd hynny'n methu, bydd arnynt angen mynediad i brosesau llys y maent hwy a'u plant yn gallu eu deall, ac a fydd yn datrys anghydfodau cyn gynted ag sy'n bosibl a heb waethygu materion ymhellach.
105. Mae ein prosesau presennol yn ddiffygiol ar sawl cyfrif.
- Mae llawer o rieni nad ydynt yn gwybod o ble i gael y wybodaeth a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i ddatrys eu hanghytundeb heb droi at y llys.
 - Mae ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r dewisiadau yn lle'r llys, a llawer iawn o gamddealltwriaeth.
 - Mae gormod o achosion yn gorffen yn y llys, ac mae penderfyniad gan lys yn erfyn di-fin.
 - Mae'n anodd chwilio'r ffordd drwy'r system llysoedd, ac mae hon yn broblem sy'n debygol o ddod yn fwy amlwg wrth i fwy o bobl eu cynrychioli eu hunain oherwydd y gostyngiadau arfaethedig mewn cymorth cyfreithiol.
 - Mae teimlad (a allai fod yn gywir neu'n anghywir) fod cyfreithwyr at ei gilydd yn defnyddio dulliau gwrthwynebus sy'n dwysáu gwrthdaro yn hytrach na'i leddfu.
 - Mae achosion yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser.

106. Mae materion mwy sylfaenol sy'n mynd ymhellach na phrosesau.
- Mae plant yn dweud nad ydynt yn deall beth sy'n mynd ymlaen ac nad oes ganddynt ddigon o gyfle i ddweud eu barn.
 - Mae diffyg dealltwriaeth ynghylch cyfrifoldeb rhiant, yn gyfreithiol ac yn fwy cyffredinol: mae rhai'n credu'n anghywir fod cydbwysedd cyfrifoldeb rhiant yn symud ar ôl gwahanu, a bod un rhiant yn ymgymryd â chyfrifoldeb llawn dros ei blentyn.
 - Mae hyn yn mynd law yn llaw â'r anhawster i bawb sy'n gysylltiedig o sicrhau bod plant yn cadw perthynas â'r ddau riant ac eraill gan gynnwys neiniau a theidiau ar ôl gwahanu, lle mae hyn yn ddiogel. Mae canfyddiad gan rai bod y system yn ffafrio mamau o flaen tadau.

Y ffordd ymlaen

107. Bwriad ein hargymhellion yw delio â'r materion hyn, gosod proses glir ar gyfer gwahanu sy'n rhoi pwyslais ar gyfrifoldeb rhiant a rennir, yn darparu gwybodaeth, yn rheoli disgwyliadau ac yn helpu pobl i ddeall y costau y maent yn eu hwynebu ar bob cam. Mae'r pwyslais drwyddo draw ar alluogi pobl i ddatrys eu hanghydfodau'n ddiogel y tu allan i'r llys lle bynnag y bo modd.
108. Mae angen gwell dealltwriaeth o natur cyfrifoldeb rhiant. Mae angen gwneud mwy'n gyffredinol i hybu a hyrwyddo'r cysyniad o gyfrifoldeb rhiant a'i oblygiadau. **Dylai llywodraeth ddod o hyd i ffyrdd i gryfhau'r pwysigrwydd o gael dealltwriaeth dda o gyfrifoldeb rhiant mewn gwybodaeth y mae'n ei rhoi i rieni.** Un cam y gellid ei gymryd yw rhoi taflen fyr i rieni pan fyddant yn cofrestru genedigaeth eu plentyn, i'w cyflwyno i ystyr a goblygiadau ymarferol cyfrifoldeb rhiant. Mae hon yn adeg yn aml pan fydd teuluoedd yn cael amrywiaeth o wybodaeth i'w helpu wrth iddynt fagu eu plant, er enghraifft, *The Pregnancy Book* a gynhyrchwyd gan yr Adran Iechyd; lle bynnag y bo modd, dylai deunydd o'r fath gynnwys gwybodaeth am gyfrifoldeb rhiant hefyd.
109. Lles y plentyn a ddylai fod yn brif ystyriaeth i'r llys, yn unol â Deddf Plant 1989. Ni ddylid gwneud unrhyw newid a allai danseilio'r egwyddor hon. Gan hynny, **ni ddylid cyflwyno deddfwriaeth sy'n creu neu'n arwain at y perygl o greu'r canfyddiad bod hawl rhiant i gael amser sylweddol wedi'i rannu neu amser cyfartal ar gyfer y ddau riant.** Oherwydd hynny a chan gymryd tystiolaeth bellach i ystyriaeth, nid ydym ychwaith yn argymhell newid a wyntyllwyd yn ein hadroddiad dros dro y gallai deddfwriaeth ddatgan y pwysigrwydd i'r plentyn o gael perthynas ystyrlon â'r ddau riant wedi iddynt wahanu os yw hynny'n ddiogel. Er bod hyn yn gywir ac, yn wir, yn egwyddor sy'n llywio penderfyniadau gan lysoedd, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai hyn yn gwneud mwy o ddrwg nag o les.
110. **Dylai'r angen barhau i neiniau a theidiau wneud cais am ganiatâd y llys cyn gwneud cais am gyswllt.** Mae hyn yn atal ceisiadau anobeithiol neu flinderus nad ydynt er budd y plentyn. Rydym yn nodi nad yw hyn, yn groes i farn rhai, yn arwain at yr angen i dalu dwy set o ffioedd.

111. Er mwyn hybu cyfrifoldeb rhiant a rennir, dylid annog rhieni sy'n gwahanu, gan ymgynghori â'u plant, i ddatblygu cytundebau hyblyg sy'n gweddu i'w hamgylchiadau. **Dylid annog rhieni i ddatblygu Cytundeb Rhianta i nodi trefniadau ar gyfer gofalu am eu plant wedi iddynt wahanu. Dylai llywodraeth a'r farnwriaeth ystyried sut y gallai Cytundeb Rhianta wedi'i lofnodi fod â phwysau fel tystiolaeth mewn unrhyw anghydfod rhwng rhieni wedyn.**
112. **Rydym yn argymhell y dylai llywodraeth ddatblygu gorchymyn trefniadau plentyn, a fyddai'n nodi trefniadau ar gyfer magu plentyn pan fydd angen penderfyniad gan lys ynghylch anghydfodau sy'n ymwneud â gofal plant.** Byddai'r gorchymyn newydd yn symud oddi wrth dermau trymlwythog eu hystyr fel 'preswylfan' a 'chyswllt' sydd wedi dod yn achos cynnen ar eu pen eu hunain rhwng rhieni, er mwyn canolbwyntio i fwy o raddau ar faterion ymarferol sy'n ymwneud â gofal y plentyn o ddydd i ddydd. **Dylai llywodraeth ddiddymu'r ddarpariaeth ar gyfer gorchymynion preswyllo a chyswllt yn Neddf Plant 1989. Dylid cadw gorchymynion camau gwaharddedig i sicrhau amddiffyniad a lles y plentyn. Dylid cadw gorchymynion mater penodol ar gyfer materion ar wahân.**
113. **Dylai'r gorchymyn trefniadau plentyn newydd fod ar gael i dadau sydd heb gyfrifoldeb rhiant, yn ogystal â'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant eisoes, ac i aelodau o'r teulu ehangach gyda chaniatâd y llys.**
- Lle byddai angen cyfrifoldeb rhiant ar y tad i gyflawni'r gofyniad am ofal sydd wedi'i nodi yn y gorchymyn, byddai'r llys hefyd yn gwneud gorchymyn cyfrifoldeb rhiant.
 - Lle mae'r gorchymyn yn mynnu bod aelodau o'r teulu ehangach yn gallu arfer cyfrifoldeb rhiant, byddai'r llys yn gwneud gorchymyn i'r perwyl y dylai'r person hwnnw fod â chyfrifoldeb rhiant yn ystod cyfnod y gorchymyn.
 - Dylid parhau â'r cyfleuster i symud y plentyn o awdurdodaeth Cymru a Lloegr am hyd at 28 o ddiwrnodau heb gael cytundeb pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu orchymyn llys.
 - Dylid parhau hefyd â'r ddarpariaeth sy'n cyfyngu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant rhag newid cyfenw'r plentyn heb gael cytundeb pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu orchymyn llys.
114. Gan droi at y broses ar gyfer gwahanu, dylai rhieni gael mynediad rhwydd at ystod eang o wybodaeth a chyfeiriadau at unrhyw gymorth pellach y gallai fod arnynt ei angen. **Dylai llywodraeth sefydlu canolfan wybodaeth ar-lein a llinell gymorth i roi gwybodaeth a chymorth i gyplau i'w helpu i ddatrys materion ar ôl ysgaru neu wahanu y tu allan i'r llys.** Dylai'r ganolfan wybodaeth ar-lein a'r llinell gymorth ddod â gwefannau llywodraeth eraill a gyfeirir at rieni sy'n gwahanu at ei gilydd a'u helaethu. Dylid rhoi pwyslais ar gyfrifoldeb rhiant a rennir.
115. Dylai ddod yn beth arferol, lle mae angen cymorth ychwanegol ar rieni i ddatrys anghydfodau, iddynt roi cynnig yn gyntaf ar gyfryngu neu fath arall o wasanaeth datrys anghydfodau. Er mwyn pwysleisio bod y gwasanaethau hyn

i'w defnyddio'n gyntaf **dylid ailenwi 'dulliau amgen o ddatrys anghydfod' yn 'Wasanaethau Datrys Anghydfodau', er mwyn lleihau un rhwystr rhag eu defnyddio. Lle mae angen ymyrraeth, dylid disgwyl i rieni sy'n gwahanu ddod i sesiwn gyda chyfryngwr, sydd wedi'i hyfforddi a'i achredu at safon broffesiynol uchel, a ddylai:**

- asesu i ganfod yr ymyriad mwyaf priodol, gan gynnwys cyfryngu a chyfraith gydweithredol, neu a yw'r perygl o drais domestig, anghydbwysedd rhwng y partïon neu ystyriaethau amddiffyn plant yn galw am atgyfeirio ar unwaith at y llys teulu; a
- darparu gwybodaeth am Wasanaethau Datrys Anghydfodau Lleol a sut y gallent helpu partïon i ddatrys anghydfodau.

116. Yr enw ar yr asesiadau cychwynnol hyn yw Cyfarfodydd Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu.
117. **Bydd angen i'r cyfryngwr sydd i wneud yr asesiad cychwynnol fod yn ymarferydd allweddol nes gwneud cais i'r llys.** Byddai angen i'r person hwn ddilyn hynt yr anghydfod i sicrhau nad oedd un parti'n ymestyn pethau am ba bynnag reswm. Pe byddai hynny'n digwydd, dylid rhoi tystysgrif ar gyfer llys. Byddai angen amryw o eithriadau hefyd ar gyfer y rheini yr oedd gwneud cais i lys yn fater brys, neu'r rheini yr oedd yn amlwg o'r cychwyn fod gwasanaethau datrys anghydfodau'n anaddas iddynt. **Byddai'r gyfundrefn yn caniatáu ceisiadau brys i'r llys a dylai'r eithriadau fod fel y rheini sydd yn y Protocol Cyn Cais presennol.**
118. **Os oedd rhieni heb allu cytuno o hyd, dylent gymryd rhan wedyn mewn Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu ac ar ôl hynny, os oes angen, defnyddio gwasanaeth cyfryngu neu wasanaeth datrys anghydfodau arall.** Amcan Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu yw helpu rhieni i ddysgu mwy am yr heriau o rianta ar ôl gwahanu, gan gynnwys yr effeithiau ar blant o wrthdaro parhaus.
119. Dylai presenoldeb mewn Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu ac mewn Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais i lys (yn amodol ar eithriadau perthnasol). Ni ellir mynnu hyn gan atebyddion, ond fe ddylid ei ddisgwyl. **Dylai barnwyr gadw'r pŵer i orchymyn i bartïon gymryd rhan mewn sesiwn gwybodaeth cyfryngu a Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu ac maent yn cael gwneud gorchmynion am gostau lle y teimlir bod un parti wedi ymddwyn yn afresymol.** Gallai barnwyr helpu i hybu disgwyliad cyffredinol y dylai rhieni sy'n gwahanu roi cynnig ar ddull o ddatrys anghydfod cyn gwneud cais i lys.
120. Credwn fod llawer o rieni a fyddai'n elwa o roi cynnig ar gyfryngu. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig y dylai hyn fod yn orfodol ar y naill barti na'r llall. Os yw rhieni wedi cymryd rhan mewn Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu a Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu, dylent allu dewis y gwasanaeth a fyddai yn eu barn hwy'n fwyaf buddiol iddynt. **Lle na fu modd dod i gytundeb erbyn hynny, byddai un o'r partïon, neu'r ddau, ar ôl cael**

tystysgrif gan y cyfryngwr, yn cael caniatâd i wneud cais i'r llys. Y swyddogaeth bwysicaf yn y fan hon yw sicrhau nad yw un parti'n ymestyn y gweithrediadau. Os digwydd hynny, dylid rhoi tystysgrif ar gyfer llys.

121. Dylai'r holl gyfryngu ganolbwyntio ar y budd gorau i'r plentyn. Mae tasg y cyfryngwr yn hyn o beth, a'r tasgau eraill sydd ganddo, yn ymestynnol. Mae gwneud asesiad o'r peryglon i'r partion yn y Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu yn anodd ac yn bwysig. **Dylai fod yn ofyniad sylfaenol i gyfryngwyr fodloni'r gofynion presennol sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Dylid adolygu'r safonau hyn eu hunain yng nghyd-destun y cyfrifoldebau newydd a roddir i gyfryngwyr. Dylai cyfryngwyr nad ydynt yn bodloni'r safonau hynny ar hyn o bryd gael cyfnod penodol i'w cyrraedd.**
122. **Dylai llywodraeth gadw golwg manwl ac adolygu cynnydd y Cyngor Cyfryngu Teuluol er mwyn asesu ei effeithioldeb wrth gynnal ac ategu safonau uchel. Os bydd angen, dylid sefydlu rheoleiddiwr annibynnol yn lle'r Cyngor Cyfryngu Teuluol.**
123. Lle mae cais wedi'i wneud i'r llys, **dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol sicrhau, mewn achosion sy'n cynnwys plant, fod gwiriadau diogelu wedi'u cwblhau ar y pwynt mynediad i'r system llysoedd. Dylid cadw Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawriad Cyntaf (ADAGC). Gallai Cytundebau Rhianta fod o gymorth hefyd yn y cam hwn. Dylai GLITHEM a'r farnwriaeth sefydlu system traciau yn ôl cymhlethdod yr achos. Yn yr ADAGC dylai'r barnwr ddyrannu'r achos i drac syml neu drac cymhleth. Dylai'r trac syml benderfynu materion cyfyng lle byddai rheolau ac egwyddorion rheoli achosion wedi'u teilwra'n gymwys. Yn yr un modd â meysydd eraill mewn cyfraith teulu, mae dilyniant barnwrol yn hanfodol. Rhaid i'r barnwr a ddyrannwyd i wrando'r achos ar ôl yr ADAGC barhau'n farnwr ar gyfer yr achos hwnnw.**
124. **Dylid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael gwrandawriad i'w barn mewn achosion sy'n ymwneud â nhw, os ydynt yn dymuno.** Yr anghenion allweddol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ac yn y gyfraith breifat yn gyffredinol yw:
 - rhoi eglurder i'r plentyn ynghylch y broses, y dewisiadau sydd ganddo ar gyfer cymryd rhan a'r tebygolrwydd o roi ystyriaeth i'w farn;
 - hybu ymwybyddiaeth rhieni, drwy addysg a chymorth, o effaith bosibl anghydfodau ar eu plant;
 - helpu rhieni i gyfathrebu â'u plant; a
 - sicrhau cysondeb o ran gweithredu a deunyddiau drwy gydol y broses – drwy'r ganolfan wybodaeth ar-lein, cyfryngwyr, ymarferwyr cyfreithiol, Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu ac yn y llys.
125. **Dylai'r llywodraeth a'r farnwriaeth ystyried sut y gellir amddiffyn plant a thystion sy'n agored i niwed pan fyddant yn rhoi tystiolaeth mewn achosion teuluol.**

126. Mae camau gorfodi cyflym yn bwysig pan fydd gorchmynion llys wedi'u torri. Bydd hyn o gymorth i sicrhau na fydd trefniant sydd wedi'i bennu fel un sydd er y budd gorau i'r plentyn yn cael ei anwybyddu a threfniant arall sy'n llai llesol yn cael ei droi'n norm. Bydd hefyd yn rhoi modd i wneud addasiadau lle mae angen. Mae'n hollbwysig, os yw gorchymyn llys wedi'i dorri, fod yr achos yn dychwelyd yn gyflym i'r llys, at yr un barnwr, er mwyn gorfodi hawl y plentyn i gael perthynas â'i ddau riant os yw hyn yn ddiogel.
127. **Lle mae gorchymyn wedi'i dorri o fewn y flwyddyn gyntaf, dylai'r achos fynd yn syth yn ôl i'r llys at yr un barnwr er mwyn datrys y mater yn gyflym. Dylai'r pwerau gorfodi presennol fod ar gael. Dylid gwrando'r achos o fewn nifer penodedig o ddiwrnodau, gan ddatrys yr anghydfod mewn un gwrandawriad.**
128. Fodd bynnag, os bydd gorchymyn yn methu ar ôl 12 mis, credwn y byddai'n briodol i rieni geisio datrys y mater yn annibynnol yn gyntaf. **Os caiff gorchymyn ei dorri ar ôl 12 mis, dylid disgwyl i'r partïon fynd yn ôl at y Gwasanaethau Datrys Anghydfodau cyn dychwelyd i'r llys i geisio camau gorfodi.**
129. Yn aml bydd rhieni'n creu cysylltiad yn eu meddwl eu hunain rhwng cyswllt a chynhaliaeth ('dim cyswllt felly dim cynhaliaeth', neu 'dim cynhaliaeth felly dim cyswllt'). Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai cyflwyno unrhyw gysylltiad yn y gyfraith rhwng y ddau, hyd yn oed yn ôl disgresiwn y barnwr, yn creu'r perygl o ategu hyn. Byddai bodolaeth pŵer o'r fath hefyd yn gallu tanseilio trefniadau preifat a hybu cyfreitha. Dylid canolbwyntio ar hawl plant i gael cefnogaeth emosiynol, ariannol ac ymarferol gan eu dau riant, ac mae cyfrifoldeb ar rieni i ddarparu hyn. **Rydym yn argymhell na ddylid cael cysylltiad o unrhyw fath rhwng cyswllt a chynhaliaeth.**
130. **Dylid disgwyl i bobl sydd mewn anghydfod ynghylch arian neu eiddo gael mynediad at y ganolfan wybodaeth ar-lein a dylai fod yn ofynnol iddynt gael eu hasesu ar gyfer cyfryngu.** Roedd tystiolaeth a gawsom ar ôl galw am dystiolaeth yn awgrymu y byddai newid mewn deddfwriaeth, i sefydlu fframwaith wedi'i godeiddio, yn gallu lleihau'r angen am ymyrraeth farnwrol. **Dylai llywodraeth sefydlu adolygiad ar wahân o orchmynion ariannol a hynny'n cynnwys archwiliad o'r gyfraith.**
131. **Dylai'r broses ar gyfer cychwyn achos ysgaru ddechrau â'r ganolfan wybodaeth ar-lein a dylai gael ei drafod yn weinyddol gan y llys, oni bai fod anghytundeb ynghylch yr ysgariad.**
132. **Lle y bo bodd, dylid ystyried yr holl faterion sy'n destun anghydfod ar ôl gwahanu gyda'i gilydd, boed drwy gyfryngu ar yr holl faterion neu mewn gwrandawiadau llys cyfunol. Dylai GLIThEM a'r farnwriaeth ystyried sut y gellid cyflawni hyn mewn llysoedd. Dylid gofalu na fydd hyn yn achosi oedi ychwanegol, yn enwedig mewn cysylltiad â phlant.**
133. Mewn egwyddor, credwn y dylai ffioedd yn y gyfraith breifat adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth. Ond prin oedd y dystiolaeth a gafodd y panel am

gost achosion cyfraith breifat, ac nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion, gan gydnabod na allem asesu lefel debygol y ffioedd a'u heffaith ar deuluoedd a phlant. Byddai angen ystyried unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn ofalus. Hefyd, dylid cael polisi talu ffioedd clir a thryloyw i gynorthwyo'r rheini y mae arnynt ei angen.

134. Nodwn gyda phryder yr effaith bosibl o'r newidiadau arfaethedig mewn cymorth cyfreithiol. **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fonitro effaith y diwygiadau'n fanwl. Mae'r cyflenwad o gyfreithwyr teulu â chymwysterau priodol yn hanfodol i amddiffyn plant.**